

PADESWOOD CCS

Cipio a storio carbon Padeswood

Gwneud Sir y Fflint yn arweinydd
y byd mewn sment sero net

Llyfryn ymgynghoriad statudol

Dydd Mawrth 02 Gorffennaf i ddydd Llun 12 Awst 2024

This document is also available
in English on our website here:



Ebost/Email: padeswoodccs@uk.heidelbergmaterials.com

Ffôn/Phone: 0800 046 9642

Post: FREEPOST PADESWOOD CCS



Cynnwys

03	Pwy yw Heidelberg Materials UK?
04	Cyflwyniad
06	Beth yw cipio a storio carbon (CCS)?
08	Beth yw cyfleuster cipio a storio carbon Padeswood?
10	Ein gweledigaeth ar gyfer Padeswood
12	Beth yw HyNet North West?
14	Ein cynigion
14	Gorsaf bŵer a gwres gyfun
16	Diweddariadau o'n hymgyngoriad anstatudol
18	Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (AEA)
19	Trosolwg o ganfyddiadau ein drafft
	Datganiad Amgylcheddol
26	Budd cymunedol
27	Ein hymgyngoriad
31	Y camau nesaf
31	Sut i ddarparu adborth
32	Manylion cyswllt

Pwy yw Heidelberg Materials UK?

Mae gwaith sment Padeswood yn eiddo i Castle Cement Limited, rhan o grŵp o gwmnïau Heidelberg Materials, ac mae'n gweithredu o dan enw masnachu Heidelberg Materials UK.

Y tro diwethaf i ni ymgynghori â chi ar ein cynlluniau ar gyfer Padeswood CCS yn gynnar yn 2023, roedd gwaith sment Padeswood yn gweithredu o dan yr enw 'Hanson'. Ym mis Hydref 2023, fe wnaeth Hanson alinio ei hunaniaeth â'i riant gwmni, Heidelberg Materials.

Heidelberg Materials yw un o wneuthurwyr deunyddiau adeiladu integredig mwyaf y byd. Yn y DU, rydym yn cyflogi dros 4,000 o bobl ar draws 300 o safleoedd. Rydym yn un o brif gyflenwyr deunyddiau adeiladu trwm carbon isel i'r diwydiant adeiladu, ac rydym wedi ymrwymo i gyflawni sero net erbyn 2050.

I gael rhagor o wybodaeth am Heidelberg Materials, ewch i'n gwefan yma: [heidelbergmaterials.co.uk](https://www.heidelbergmaterials.co.uk)



Cyflwyniad

Mae cyfleuster cipio a storio carbon Padeswood (“Padeswood CCS”) yn brosiect sydd wedi’i leoli yng ngwaith sment Heidelberg Materials UK yn Padeswood, Sir y Fflint. Mae ein gwaith sment yn Padeswood wedi bod yn rhan annatod o’r gymuned ers 1949, ac mae’r prosiect hwn yn bwriadu parhau â’r effaith economaidd gadarnhaol y mae’r safle hwn yn ei chael ar yr un pryd â chyfrannu at uchelgeisiau sero net y DU.

Mae Llywodraeth y DU wedi llofnodi Cytundeb Paris 2015 (UNFCCC, 2018)[1] sy’n ymrwymo’r DU i fesurau sydd â’r nod o gadw’r cynnydd mewn tymheredd byd-eang i lefelau is na 2°C o’i gymharu â lefelau cyn-ddiwydiannol, ac i fynd ar drywydd yr ymdrechion gorau i leihau’r cynnydd i 1.5°C. Fel rhan o’r targedau hyn, ym mis Mehefin 2019, y DU oedd yr economi fawr gyntaf yn y byd i ymrwymo i darged allyriadau sero net o ran allyriadau garbon deuocsid (CO₂), gan wneud addewid i ddiddymu cyfraniad y DU at newid yn yr hinsawdd erbyn 2050 (HM Government, 2019[2]).

Mae sment yn rhan hanfodol o drawsnewidiad y DU i sero net. Fodd bynnag, mae cynhyrchu sment yn garbon-ddwys, ac ni ellir mynd i’r afael â’r rhan fwyaf o’r allyriadau carbon a gynhyrchir gan weithgynhyrchu sment, na’u gwrthbwysu, drwy ddefnyddio tanwydd neu ffynonellau ynni adnewyddadwy. Yn yr un modd, nid oes dewis ymarferol arall yn lle concrit yn y diwydiant adeiladu. Felly, er mwyn cynhyrchu’r sment sydd ei angen ar y DU heb allyrru llawer iawn o CO₂, ein hunig opsiwn yw cipio a storio’r allyriadau hyn.

Yn bennaf, mae ein prosiect yn cynnwys cyfleuster cipio carbon, a fydd yn ein galluogi i gipio allyriadau CO₂ o’r broses gweithgynhyrchu sment. Nod y datblygiad arfaethedig yw integreiddio i rwydwaith HyNet North West drwy gipio CO₂ o’r gwaith sment i’w gludo a’i storio yng nghyfleusterau storio Bae Lerpwl.



David Quick - Rheolwr, gwaith sment Padeswood

Bydd HyNet North West yn datblygu ac yn uwchraddio’r seilwaith presennol i gynhyrchu, cludo a storio hydrogen carbon isel yn ogystal â chipio, cludo a storio CO₂ ar draws gogledd-orllewin Lloegr a Gogledd Cymru. Pe bai’n cael ei gymeradwyo, dyma fyddai’r gwaith sment cyntaf yn y DU i gipio carbon, gan gynrychioli prosiect arloesol ar gyfer y diwydiant sment byd-eang.

Mae Liverpool Bay CCS Limited yn arwain y gwaith o ddatblygu’r system gludo CO₂ ar gyfer cynllun ehangach HyNet North West. Mae Liverpool Bay CCS Limited yn berchen ar ac yn gweithredu’r rhwydwaith piblinellau sy’n cael ei uwchraddio fel rhan o’r cynllun ac mae’n gyfrifol am gydsynio, adeiladu a gweithredu’r biblinell CO₂ sy’n cysylltu’r datblygiad arfaethedig drwy Gosodiad Uwchben y Ddaear newydd yn Padeswood â phrif Bibell Carbon Deuocsid HyNet yn Neuadd Llaneanrain.

Ein hymgyngoriad statudol: Dydd Mawrth 02 Gorffennaf i 11:59pm Dydd Llun 12 Awst 2024

Ym mis Ionawr a mis Chwefror 2023, fe wnaethom gynnal ein hymgyngoriad anstatudol, lle gwnaethom gyflwyno ein cynlluniau cychwynnol mewn digwyddiadau cyhoeddus ac ar-lein, a gofyn am adborth arnynt. Ers yr ymgynghoriad hwn, rydym wedi bod yn brysur yn datblygu ein cynlluniau ar gyfer y prosiect a, lle bo’n briodol, rydym wedi defnyddio eich adborth i helpu i lunio’r broses hon.

Mae Padeswood CCS yn cael ei ystyried yn Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol (DAC). Mae’r drefn gydsynio ar gyfer ceisiadau DAC yn ei gwneud yn ofynnol i ni wneud cais am ganiatâd cynllunio i Lywodraeth Cymru.

Wrth i ni nesáu at gyflwyno ein cais cynllunio yn hwyrach eleni, rydym ni eisiau rhoi cyfle ffurfiol arall i chi roi adborth ar ein cynigion.

Mae’r llyfryn hwn yn darparu gwybodaeth i’ch helpu i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad a rhoi eich adborth. Er mwyn i ni allu parhau i ddatblygu’r prosiect gyda chi mewn golwg, rhannwch eich barn â ni drwy’r sianeli gyferbyn, a sganwch y cod QR i’w gyfeirio at ein gwefan a’n ffurflen adborth.

Fel rhan o’n gwaith ymgysylltu yn ystod yr ymgynghoriad hwn, rydym yn cynnal cyfres o ddiwyddiadau a gweminarau wyneb yn wyneb.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael padeswoodccs.co.uk

Ebost padeswoodccs@uk.heidelbergmaterials.com

Galw **0800 046 9642**

Ysgrifennwch at **FREEPOST PADESWOOD CCS**



Sganwch y cerdyn QR am fanylion pellach



Ein cynlluniau cychwynnol a gyflwynwyd gennym i’r cyhoedd yn 2023

[1] unfccc.int/documents/184656

[2] www.gov.uk/government/news/uk-becomes-first-major-economy-to-pass-net-zero-emissions-law

Beth yw cipio a storio carbon (CCS)?


Cipio a storio carbon yw'r broses o gipio CO₂ cyn iddo fynd i mewn i'r atmosffer, ei gludo a'i storio'n barhaol.

Ar safle Padeswood, byddwn yn cipio CO₂ a gynhrychir yn ystod y broses gweithgynhyrchu sment. Bydd y CO₂ wedyn yn cael ei gludo'n ddiogel drwy biblinell o dan y ddaear ac yn cael ei storio'n ddiogel mewn cronfeydd nwy wedi'u gwagio o dan wely'r môr ym Mae Lerpwl.

Mae storfa CO₂ Bae Lerpwl dros 1 cilometr o dan wely'r môr ac oddeutu 32 cilometr oddi ar yr arfordir. Unwaith y bydd yno, bydd yr allyriadau'n aros o dan y ddaear am gyfnod amhenodol, wedi'u gorchuddio gan haen drwchus o siâl.

Mae'r graffigyn yn Ffigur 1 isod yn disgrifio sut mae carbon deuocsid ar safle Padeswood yn cael ei gipio a'i anfon i'w storio.

Ffigur 1 – Prosiect cipio a storio carbon Padeswood



Beth yw cyfleuster cipio a storio carbon Padeswood?

Mae ein prosiect, sydd wedi'i leoli yn ein gwaith sment gweithredol presennol yn Padeswood, yn cynnwys cyfleuster cipio carbon yn bennaf, a fydd yn ein galluogi i gipio allyriadau CO₂ o'r broses gweithgynhyrchu sment ac yna eu storio'n ddiogel – gan gefnogi'r gwaith o drawsnewid y diwydiant adeiladu i sero net.

Nod y datblygiad arfaethedig yw casglu hyd at 800,000 tunnell o CO₂ y flwyddyn o'r gwaith sment a bydd yn cynnwys y prif gydrannau prosiect canlynol:

- dal a chywasgu carbon ar ôl hylsogi (PCCCC), i echdynnu CO₂ o nwyon gwastraff a ei gywasgu ar gyfer cludo a storio cyfleuster cipio a chywasgu carbon ar ôl hylsogi, i echdynnu CO₂ o nwyon gwastraff a'i gywasgu at ddiben cludo a storio

- gorsaf bŵer a gwres gyfun, i bweru'r cyfarpar cipio carbon
- ffyrdd mynediad, ardaloedd adeiladu dros dro, swyddfeydd safle, canolfan reoli, manau parcio ceir, tirlunio, ardaloedd gwella ecolegol a seilwaith ategol arall.

Mae Liverpool Bay CCS sy'n gyfrifol am gydsynio, adeiladu a gweithredu'r biblinell CO₂ sy'n cysylltu'r cyfleuster cipio carbon â phwynt cyswllt HyNet yn Neuadd Llaneurgain. O ganlyniad, nid yw'r biblinell gysylltu yn rhan o gais DAC Heidelberg Materials UK ar gyfer Padeswood CCS.

Yr Angen am y Prosiect


Mae'r DU wedi ymrwmo i darged allyriadau 'sero net', gan addo dod â chyfraniad y DU at newid yn yr hinsawdd i ben erbyn 2050.

Mae sment yn angenrheidiol i drawsnewid y DU i sero net gan ei fod yn hanfodol i ddatblygu popeth o ffermydd gwynt newydd ar y môr, i orsafoedd pŵer niwclear, i seilwaith trafniadaeth glân, i ysgolion, cartrefi ac ysbytai a'r miloedd o swyddi y bydd y prosiectau hyn yn eu creu.

Fodd bynnag, mae cynhyrchu sment yn garbon-ddwys ar hyn o bryd. Mae cyfran fawr o'r allyriadau carbon sy'n cael eu cynhyrchu wrth weithgynhyrchu sment yn deillio o'r prosesau cemegol sy'n gysylltiedig â gwneud sment ac ni ellir mynd i'r afael â nhw drwy ddefnyddio ffynonellau ynni neu danwydd adnewyddadwy. Yn yr un modd, nid oes dewis ymarferol arall yn lle concret yn y diwydiant adeiladu.

Er mwyn cynhyrchu'r sment sydd ei angen ar y DU heb allyrru llawer iawn o garbon, ein hunig opsiwn yw cipio a storio'r allyriadau hyn. Mae Padeswood CCS yn rhoi'r cyfle i ni roi Sir y Fflint, a Gogledd Cymru yn ehangach, ar flaen y gad yn y symudiad byd-eang tuag at ddeunyddiau adeiladu carbon-niwtral.

Ffigur 2 – Diagram llif wedi'i symleiddio o'r broses



Ein gweledigaeth ar gyfer gwaith sment Padeswood

Bydd Padeswood CCS yn helpu'r DU i gyflawni ei nodau sero net drwy:



Gipio hyd at **800,000 tonnell o CO₂** y flwyddyn



Galluogi cynhyrchu deunyddiau adeiladu carbon-niwtral, gefnogi'r gwaith o drawsnewid y diwydiant adeiladu i sero net



Creu'r **gwaith sment sero net cyntaf yn y DU** ac arwain y ffordd at ddiwydiant sment sero net



Yn chwarae rhan annatod yn HyNet North West, sef prif brosiect datgarboneiddio diwydiannol y DU



Helpu i sicrhau dyfodol cynaliadwy i **2,500 o bobl** sy'n cael eu cyflogi yn niwydiant sment y DU, **15,000 o swyddi anuniongyrchol**, a **2.5 miliwn o swyddi** yn y diwydiant adeiladu

Bydd y prosiect yn cefnogi'r economi leol drwy:



Creu **54 o swyddi llawn amser medrus iawn** yn Padeswood, a hyd at **350 o swyddi yn ystod y cyfnod adeiladu**



Diogelu 222 o swyddi uniongyrchol ac anuniongyrchol



Darparu **cyfleoedd ychwanegol yn y gadwyn gyflenwi**



Uwchsgilio pobl leol er mwyn iddynt allu cyfrannu at y sector newydd cyffrous hwn



Darparu buddsoddiad cyfalaf o **dros £600 miliwn**

Beth yw HyNet North West?

Mae Heidelberg Materials UK yn aelod o HyNet North West, sef prif brosiect datgarboneiddio'r DU sy'n ceisio creu clwstwr diwydiannol carbon isel cyntaf y byd.

Y rhanbarth y mae HyNet North West yn ei gynnwys - sy'n ymestyn o Sir y Fflint a Wrecsam, drwy Swydd Gaer, Lerpwl a Manceinion Fwyaf i Swydd Gaerhirfryn - yn cynnwys y crynodiad mwyaf o weithgynhyrchu uwch a chynhyrchu cemegol yn y DU, gan gynnwys gwaith sment Padeswood.

Bydd HyNet North West yn lleihau allyriadau CO₂ rhanbarthol hyd at 10 miliwn tonnell y flwyddyn - gan gynnwys hyd at 800,000 tonnell o safle Padeswood.

I gael rhagor o wybodaeth am HyNet North West, ewch i: hynet.co.uk

ALLWEDD

- Cyfnodau cychwynnol piblinell H2 Cadent
- Cyfnodau dangosol piblinell H2 Cadent yn y dyfodol
- System cludo a storio CO₂

Padeswood CCS	Cipro CO ₂ diwydiannol
Storio CO ₂ (ar y môr)	Cludo CO ₂
Cynhyrchu H ₂ carbon isel	Cyfuno H ₂ ar gyfer cartrefi a busnesau
Storfa H ₂ o dan y ddaear	H ₂ o wynt ar y môr
Defnyddiwr H ₂ diwydiannol	Cynhyrchu pŵer H ₂ hyblyg



Mae llwybrau piblinell at ddiibenion enghreifftiol yn unig ac nid ydynt yn cynrychioli lleoliadau gwirioneddol y pibellau.

Ein cynigion

Trosolwg

Mae'r prosiect yn cynnwys nifer o gydrannau gwahanol, a'r brif ran yw'r cyfleuster cipio carbon a ddangosir yn Ffigur 2 ar dudalen 8.

Mae nifer o ffactorau wedi cyfrannu at y cynllun safle hwn. Mae'r rhain yn cynnwys sicrhau bod y cyfleuster cipio carbon a'r cyfarpar cysylltiedig wedi'u lleoli ger yr odyn bresennol i liniaru amhariad lleol a lleihau'r defnydd o ynni.

Yn ein gwaith sment presennol, byddwn yn cipio carbon o'r broses gweithgynhyrchu sment cyn iddo fynd i mewn i'r atmosffer. Yn ystod cam dylunio'r prosiect, fe wnaethom adolygu nifer o dechnolegau cipio carbon gwahanol a dewis system gipio ar ôl hylosgi seiliedig ar aminau sydd eisoes yn cael ei defnyddio ar raddfa fawr mewn diwydiannau eraill.

Rydym yn annog adborth ar ein cynigion fel rhan o'r ymgynghoriad statudol hwn.

Cyfleuster cipio a chywasgu carbon ar ôl hylosgi

Rydym yn cynnig adeiladu safle cipio carbon ar ôl hylosgi yn ne-orllewin ein safle, i echdynnu CO₂ o nwyon gwastraff a'i gywasgu at ddiben cludo a storio. Mae Ffigur 1 ar dudalen 6 yn dangos sut mae'r math hwn o system yn gweithio.

Ar hyn o bryd, cipio carbon ar ôl hylosgi gan ddefnyddio amin yw'r unig dechnoleg cipio carbon sydd eisoes wedi'i phrofi ar raddfa ddiwydiannol mewn diwydiannau eraill.

Gorsaf bŵer a gwres gyfun

Fel rhan o'n cynigion, rydym yn bwriadu adeiladu gorsaf bŵer a gwres gyfun hefyd yn rhan dde-orllewinol ein safle.

Byddai hyn yn cynhyrchu'r trydan a'r gwres sydd eu hangen i bweru'r offer cipio carbon. Yn ogystal, bydd y CO₂ a gynhyrchir gan yr orsaf bŵer a gwres gyfun yn cael ei gipio a'i storio, ynghyd â'r allyriadau o'r odyn.

Map o'r Safle

Mae ffin y cais cynllunio yn cwmpasu ffin perchnogaeth tir cyfan Heidelberg Materials UK ar gyfer gwaith sment Padeswood, fel y dangosir yn Ffigur 3 ar dudalen 15. Mae ffin y cais cynllunio yn cynnwys yr holl waith a gynigir fel rhan o'r cais DAC, ond nid yw'n awgrymu y bydd y safle cyfan yn cael ei ailddatblygu.


Mae'r gweithrediad presennol wedi'i leoli o fewn llain ganolog y safle ac mae'n cynnwys odynau sment, melinau malu, seilos a seilwaith ategol megis swyddfeydd, gweithdai a manau parcio cerbydau. Mae'r seilwaith datblygu arfaethedig newydd wedi'i leoli'n bennaf ar hyd y perimedr gorllewinol ac yn ardal ogledd-orllewin a de-orllewin ffin y cais cynllunio.

Mae'r dechnoleg yn cael ei rhoi ar waith yn y diwydiant sment yn ein ffatri yn Brevik, Norwy, a bydd yn weithredol yno yn 2025.

Y gydran uchaf o'r cyfleuster fyddai strwythur y corn simnai nwy, er na fydd yn uwch na chorn simnai bresennol yr odyn o ran uchder. Mae'r delweddau ar dudalen 22 yn dangos sut y gallai'r datblygiad edrych.

Mae'r orsaf bŵer a gwres gyfun yn ychwanegiad bach at ôl troed allyriadau carbon cyffredinol y gwaith sment, ond mae'n caniatáu i'r gweithrediad cyfan ddod yn garbon niwtral trwy bweru'r orsaf. Bydd yr orsaf bŵer a gwres gyfun yn cael ei hategu gan system adfer gwres gwastraff (WHRS). Mae WHRS yn broses sy'n cipio gwres sgil-gynnyrch o'n hodyn i'w ddefnyddio yn y cyfleuster cipio.

Ffigur 3 - Map o'r safle



Allwedd

- Ffin y cais cynllunio
Mae'r Ffin Perchnogaeth Tir yn cyd-fynd â Ffin y Cais Cynllunio ac felly nid yw'n cael ei dangos ar wahân
- Cyfleuster Cipio Carbon (gan gynnwys ardaloedd pŵer a gwres cyfun ac ardaloedd cipio a storio carbon)
- Cyfleuster Cipio Carbon ffordd fynediad i'r safle
- Cyfleuster Cipio Carbon pentref contractwyr a llesiant
- Byndiau tirweddu dangosol
- Maes parcio cyffredinol
- Cyfleuster Cipio Carbon ardal ddadlwytho deunyddiau a storfa'r contractwyr
- Swyddfeydd a chanolfan rheoli ar y cyd
- Pwll dal dŵr storm
- Cyfleuster Cipio Carbon ardal ddadlwytho a swyddfeydd adeiladu

Diweddariadau o'n hymgyngoriad anstatudol

Rydym wedi gwneud nifer o newidiadau a diweddariadau allweddol i'r prosiect ers ein hymgyngoriad anstatudol. Rydym wedi:

- cynnal ein Hasesiad o'r Effaith Amgylcheddol i ddeall prif effeithiau amgylcheddol y datblygiad arfaethedig. Mae'r canfyddiadau cychwynnol hyn i'w gweld yn ein drafft Datganiad Amgylcheddol.
- creu strategaeth lliniaru tirwedd sy'n cynnwys ein cynlluniau ar gyfer manteision net bioamrywiaeth ar y safle.
- gwelliannau arfaethedig i'r brif fynedfa o'r A5118.
- darparu rhagor o fanylion am osodiad y cyfleuster cipio carbon a chynnal dadansoddiad sensitifrwydd i bennu uchder y corn simnai nwy.
- dileu nifer o elfennau o gynlluniau'r prosiect o'n cais DAC, gan gynnwys ein storfa galchfaen, y felin falu a'r seilo deunydd crai, wrth i ni ystyried yr angen am y rhain fel rhan o'r prosiect terfynol.



Yn gryno, bydd y prosiect yn cynnwys yr isadeiledd newydd ar y safle fel a ganlyn:



System adfer gwres

Newydd, wedi'i gosod i gasglu gwres a gwella effeithlonrwydd ynni




System glanhau nwy

Newydd, i gael gwared ar halogion nad oes eu heisiau a lleihau allyriadau



Gorsaf bŵer a gwres gyfun

Newydd, i gynhyrchu'r trydan a'r gwres sydd eu hangen i bweru'r offer cipio carbon



Cipio a chywasgu carbon

Newydd, i echdynnu CO₂ o'r nwyon gwastraff o'dyn a'u cywasgu i'w cludo a'u storio

Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (AEA)

Trosolwg o'r broses AEA

Mae'r prosiect yn Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol (DAC), sy'n golygu y bydd y penderfyniad cynllunio yn cael ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru yn hytrach na Chyngor Sir y Fflint. Gweinyddir y broses DAC ar ran Llywodraeth Cymru gan Benderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PCAC).

Mae AEA wedi cael ei baratoi i gefnogi'r cais DAC. Mae AEA yn adnodd a ddefnyddir i nodi, asesu a phennu arwyddocâd effeithiau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd prosiect. Mae'n caniatáu i wneuthurwyr penderfyniadau prosiectau ddeall yr effeithiau tebygol ac yn caniatáu i brosiectau osgoi, atal, lleihau neu, os yw'n bosibl, wrthbwysu'r effeithiau hynny drwy roi mesurau lliniaru ar waith. Mae'n sicrhau bod gan Lywodraeth Cymru, ac ymgynghoreion perthnasol, ddealltwriaeth gynhwysfawr o effeithiau prosiect, sydd wedyn yn cael eu hystyried yn y broses o wneud penderfyniadau.

Fel un o ofynion Rheoliadau'r AEA, mae canfyddiadau'r AEA wedi'u dogfennu mewn Datganiad Amgylcheddol. Ar y cam hwn o'r prosiect, rydym wedi datblygu drafft Datganiad Amgylcheddol, a fydd yn cael ei ddefnyddio fel sail i'r ymgynghoriad statudol. Lle ceir ansicrwydd, mae dull ceidwadol wedi'i fabwysiadu, yn unol ag egwyddorion AEA.

Ar ôl cwblhau'r ymgynghoriad statudol, bydd adborth gan ymgynghoreion yn cael ei ystyried, ei ddogfennu a, lle bo angen, bydd newidiadau perthnasol i'r drafft Datganiad Amgylcheddol yn cael eu gwneud. Bydd fersiwn derfynol o'r Datganiad Amgylcheddol yn cael ei lunio a'i gyflwyno, ochr yn ochr â dogfennau ac adroddiadau eraill, i PCAC.



Trosolwg o ganfyddiadau ein drafft Datganiad Amgylcheddol

Mae'r drafft Datganiad Amgylcheddol (DA), sy'n adrodd ar ganfyddiadau'r AEA, wedi cael ei lywio gan gam 'cwmpasu' y prosiect hwn, sef y broses o benderfynu i ba raddau y bydd pob ffactor amgylcheddol yn cael sylw yn yr AEA. Cyflwynwyd Adroddiad Cwmpasu AEA i PCAC ym mis Tachwedd 2022, a chyhoeddodd PCAC ymateb ar ffurf Cyfarwyddyd Cwmpasu ym mis Ebrill 2023. Roedd y Cyfarwyddyd Cwmpasu hwn yn nodi pa ffactorau amgylcheddol roedd PCAC eisiau eu cynnwys yn yr AEA ar gyfer camau adeiladu a gweithredu'r prosiect.

Cafodd y ffactorau canlynol eu cwmpasu i'r AEA gan Gyfarwyddyd Cwmpasu PCAC:

- Bioamrywiaeth
- Ansawdd aer
- Yr hinsawdd
- Treftadaeth ddiwylliannol
- Y dirwedd a nodweddion gweledol
- Sŵn
- Traffig a thrafnidiaeth
- Tîr a phriddoedd
- Damweiniau mawr a thrychinebau
- Asedau materol a gwastraff

Yn yr adran hon rydym wedi crynhoi prif ganfyddiadau ein drafft Datganiad Amgylcheddol, y gallwch eu gweld yn llawn ar ein gwefan. Rydym hefyd wedi cynhyrchu Crynodeb Annhechnegol o'r ddogfen hon sy'n rhoi amlinelliad o brif ganfyddiadau ein hasesiad. I gyrchu'r dogfennau hyn, ewch i padeswoodccs.co.uk neu sganiwch y cod QR isod.



Sganiwch y cerdyn QR am fanylion pellach

Ar gyfer cam adeiladu'r prosiect, mae cynllun rheoli amgylcheddol amlinellol ar gyfer y gwaith adeiladu wedi cael ei ddatblygu, sy'n darparu mesurau lliniaru arferion gorau ar gyfer adeiladu'r prosiect.

Mae pob pennod o'r Datganiad Amgylcheddol hefyd yn nodi mesurau lliniaru sy'n benodol i'w bwnc ei hun, er mwyn lleihau ac osgoi effeithiau amgylcheddol yn ôl yr angen. Bydd y mesurau lliniaru a gynigir yn cael eu hadolygu yng ngoleuni'r ymatebion i'r ymgynghoriad cyn ein cais cynllunio terfynol.

Bydd ein cynllun rheoli amgylcheddol terfynol ar gyfer y cam adeiladu yn cael ei ddatblygu yn ystod y cam dylunio manwl yn dilyn yr ymgynghoriad hwn.

Mae prif ganfyddiadau ein drafft Datganiad Amgylcheddol wedi'u nodi isod:

Bioamrywiaeth

Wrth asesu'r safle a'r ardal o'i gwmpas, sy'n cynnwys glaswelltir a darnau bach o goetir yn bennaf, gwelsom dystiolaeth o fadfallod dŵr cribog, moch daear ac ystlumod.

Gan y bydd y datblygiad arfaethedig yn cael ei adeiladu dros ardaloedd presennol o goetir a glaswelltir, bydd llystyfiant yn cael ei gollu'n barhaol, ac mae posibilrwydd y bydd rhywogaethau yn cael eu dadleoli a chynefinoedd yn cael eu darnio.

O ganlyniad, cynigir ardal lliniaru bioamrywiaeth fel rhan o'r prosiect. Bydd yr ardal hon yn cynnwys coetir llydanddail, glaswelltir, gwrychoedd gwell a thri phwll dŵr sydd wedi'u dylunio'n benodol ar gyfer madfallod dŵr cribog.

Mae cynllun rheoli cynefinoedd wedi cael ei baratoi i ddisgrifio sut bydd yr ardal lliniaru'n cael ei rheoli ar gyfer bioamrywiaeth. Mae'r cynllun rheoli'n mynd i'r afael â thrawsleoli madfallod dŵr cribog, a chreu a rheoli'r ardal lliniaru bioamrywiaeth.

Ar ôl gorffen y gwaith adeiladu, cynigir monitro'r ardal lliniaru bioamrywiaeth, a fydd yn sicrhau bod planhigion yn cael y cyfle i sefydlu a bod gwaith cynnal a chadw parhaus yn cael ei wneud.

Yn gyffredinol, disgwylir i'r mesurau lliniaru arfaethedig fod o fantais i fioamrywiaeth.

I gael rhagor o wybodaeth am sut byddwn yn asesu ac yn lliniaru unrhyw effeithiau ar fioamrywiaeth, gweler pennod 5 o'r Datganiad Amgylcheddol.

Ansawdd aer

Fe wnaethom ddadansoddi'r effeithiau posibl y gallai'r datblygiad arfaethedig eu cael ar ansawdd aer yn ystod camau adeiladu a gweithredu'r prosiect.

Yn ystod y cam adeiladu; mae gan waith dymchwel, cloddio, symudiadau cerbydau a gweithgareddau adeiladu y potensial i gynhyrchu llwch a deunydd gronynnol. Bydd mesurau'n cael eu cymryd i reoli llwch, gan gynnwys defnyddio chwistrelli dŵr a pheiriannau ysgubo llwch gyda chymorth dŵr, a gosod sgriniau/rhwystrau dros dro.

Gyda'r mesurau hyn yn cael eu rhoi ar waith, ac eraill sydd wedi'u hamlinellu yn y cynllun amlinellol ar gyfer rheoli'r amgylchedd adeiladu, ystyrir y bydd effeithiau llwch ar yr ardal gyfagos yn ystod y cam adeiladu yn fach iawn ac nid yn sylweddol.

Ni chanfu ein harolygon a'n gwaith modelu unrhyw effeithiau sylweddol ar ansawdd aer yn ystod y cam gweithredu. Daeth y gwaith modelu i'r casgliad y bydd cynnydd bach iawn mewn crynodiadau llygryddion, ond ni fydd hyn yn cael effaith sylweddol ar safleoedd ecolegol allweddol nac ar iechyd pobl.

I gael rhagor o wybodaeth am sut byddwn yn asesu ac yn lliniaru unrhyw effeithiau ar ansawdd aer, gweler pennod 6 o'r Datganiad Amgylcheddol.

Yr hinsawdd

Bydd y datblygiad arfaethedig yn cipio ac yn storio carbon a fyddai wedi cael ei allyrru gan y gwaith sment. Felly, bydd ganddo fudd sylweddol o ran lleihau allyriadau carbon ac ar yr hinsawdd. Bydd gweithrediad y datblygiad arfaethedig yn cipio dros 90% o'r CO₂ a gynhyrchir gan y gwaith sment. Mae hyn yn cyfateb i tua 30% o holl allyriadau Sir y Fflint yn 2021, ac mae'n cynrychioli gostyngiad o 8% mewn allyriadau blynyddol y DU o weithgynhyrchu sment.

Ar lefel leol, er mwyn lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr yn ystod y camau adeiladu a gweithredu, byddwn yn blaenoriaethu'r defnydd o ddeunyddiau crai carbon isel ac yn cymryd camau i arbed ynni lle bo hynny'n ymarferol. Ar hyn o bryd rydym yn edrych ar amrywiaeth o ddulliau lliniaru allyriadau, fel gwneud y defnydd gorau posibl o ddeunyddiau lleol a charbon isel, hyrwyddo ailgylchu deunyddiau a lleihau'r defnydd o danwydd/diesel.

Amcangyfrifir y bydd yr allyriadau o'r gwaith adeiladu sy'n gysylltiedig â'r datblygiad arfaethedig yn cyfateb i

lai nag 1% o gyllideb allyriadau cyfrannol ardal Awdurdod Lleol Sir y Fflint ar gyfer 2023-2027 ac felly ni fyddant yn cael effaith sylweddol ar yr hinsawdd pan ystyrir arbedion gweithredol y prosiect.

I gael rhagor o wybodaeth am sut byddwn yn asesu ac yn lliniaru unrhyw effeithiau ar yr hinsawdd, gweler pennod 7 o'r Datganiad Amgylcheddol.

Treftadaeth ddiwylliannol

Roedd astudiaethau bwrdd gwaith ac arolygon maes yn cadarnhau nad oes safleoedd dynodedig (h.y. safleoedd treftadaeth y byd, henebion rhestredig, adeiladau rhestredig Gradd I neu Radd II, neu dirweddau hanesyddol) o fewn ffiniau'r safle.

Mae 14 o safleoedd heb eu dynodi ar y safle; sy'n asedau hanesyddol sydd wedi'u rhestru'n lleol, gan gynnwys ardal o gribau a rhychau canoloesol, Neuadd Padeswood a'i hadeiladau cysylltiedig, a siafft lo ôl-ganoloesol yn Fferm Bannel.

Drwy ymgynghori â Chyngor Sir y Fflint, Ymddiriedolaeth Archeolegol Clwyd-Powys a Cadw, penderfynwyd y byddai asesiad treftadaeth ddiwylliannol yn canolbwyntio ar unrhyw asedau heb eu dynodi o fewn cilometr i'r safle, ac unrhyw asedau dynodedig o fewn 5 cilometr i'r safle. Arweiniodd hyn at asesiad o 15 o asedau heb eu dynodi a chwe safle cofrestredig.

Oherwydd y pellter rhwng y safleoedd rhestredig a'r datblygiad arfaethedig, a phwysigrwydd lleol yr asedau heb eu dynodi ar y safle, aseswyd na fydd effeithiau'r datblygiad arfaethedig ar dreftadaeth ddiwylliannol yn sylweddol.

I gael rhagor o wybodaeth am sut byddwn yn asesu ac yn lliniaru unrhyw effeithiau ar dreftadaeth ddiwylliannol, gweler pennod 8 o'r Datganiad Amgylcheddol.

Dirwedd a gweledol

Mae safle'r gwaith sment presennol yn cynnwys strwythurau mawr, gweladwy fel y tŵr cyn-gwresogi.

Fel rhan o'r datblygiad arfaethedig, byddwn yn adeiladu strwythur corn simnai nwy, na fydd yn uwch na chorn simnai bresennol yr odyr, a strwythurau tal ychwanegol o ymddangosiad diwydiannol. Oherwydd yr ychwanegiadau hyn, cynhaliwyd asesiad o'r dirwedd a'r effaith weledol.

Mae gwaith modelu cyfrifiadurol ac astudiaethau maes wedi cael eu cynnal i bennu gwelededd tebygol y datblygiad arfaethedig. Ar y cyd â Chyngor Sir y Fflint a Phenderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru, rydym wedi cynhyrchu delweddau o 14 golygfan. Mae'r golygfannau hyn yn gynrychioliadol o olygfeydd o'r datblygiad arfaethedig o eiddo a lleoliadau cyhoeddus yn yr ardal gyfagos, ac maent i'w gweld yn Ffigur 4 ar dudalen 22. Y prif strwythurau gweledol fydd y corn simnai nwy newydd a'r golofn atgynhyrchu arfaethedig.

I grynhoi, mae gwelededd posibl y datblygiad arfaethedig wedi'i gyfyngu i hyd at 3 cilometr o dde, gorllewin a de-ddwyrain y safle. Yn gyffredinol, prin fyddai'r golygfeydd o'r datblygiad arfaethedig o'r trefi a'r pentrefi cyfagos.

I gael rhagor o wybodaeth ar welededd y datblygiad arfaethedig o wahanol olygfannau a'n mesurau lliniaru arfaethedig, gweler pennod 9 o'r Datganiad Amgylcheddol.

Dirwedd a gweledol

Ffigur 4

A5118 (gogledd-orllewin) a llwybr cyhoeddus Bwcle

- 1 Diwrnod presennol 2 Delweddu cychwynnol o'r datblygiad arfaethedig




Cyffordd yr A5104, Ffordd Llyn Padeswood, a llwybr cyhoeddus Leeswood

- 1 Diwrnod presennol 2 Delweddu cychwynnol o'r datblygiad arfaethedig



Golygfa o Bannel Lane, Spon Green

- 1 Diwrnod presennol 2 Delweddu cychwynnol o'r datblygiad arfaethedig



Sŵn

Cynhaliwyd asesiad sŵn i ganfod y ffynonellau sŵn a gynhyrchir gan y prosiect ac i fodelu effaith hyn ar leoliadau sensitif yn yr ardal gyfagos. Mae canlyniadau'r asesiad sŵn wedi cael eu defnyddio i lywio dyluniad y datblygiad arfaethedig ac i lywio mesurau lliniaru a lleihau sŵn.

I gael rhagor o wybodaeth am yr asesiad sŵn a'r mesurau lliniaru arfaethedig, gweler pennod 10 o'r Datganiad Amgylcheddol.

Traffig a thrafnidiaeth

Bydd cynnydd mewn traffig yn ystod cam adeiladu'r prosiect; gyda gweithwyr yn cyrraedd / gadael y safle, cyflenwi deunyddiau adeiladu, symud offer, symud gwastraff a cherbydau gwasanaethau. Disgwylir na fydd y traffig adeiladu arfaethedig yn cynyddu mwy na 30% ac felly ni fydd unrhyw effeithiau sylweddol hirdymor ar y rhwydwaith ffyrdd lleol.

Rydym wedi cynnal gwaith modelu o'r symudiadau traffig arfaethedig ac asesiadau o'r rhwydwaith ffyrdd cyfagos a fydd yn sail i ddatblygu cynllun rheoli traffig adeiladu ar gyfer yr ardal leol. Bydd y cynllun hwn yn nodi sut rydym yn bwriadu lliniaru'r effeithiau sy'n gysylltiedig â'r cynnydd mewn symudiadau traffig, a fydd yn cynnwys nodi llwybrau addas ar gyfer cerbydau nwyddau trwm ac osgoi teithio, lle bo hynny'n bosibl, yn ystod cyfnodau prysur fel oriau brig.

Bydd cynllun teithio hefyd yn cael ei roi ar waith yn ystod y cam adeiladu, a fydd yn cynnwys manylion mesurau i leihau teithio mewn ceir preifat ac allyriadau carbon drwy hyrwyddo teithio llesol, defnyddio trafndiaeth gyhoeddus a rhannu ceir ar gyfer y staff adeiladu.

Yn ystod cam gweithredu'r prosiect, nid oes disgwyl i deithiau gweithwyr fod yn sylweddol ar y rhwydwaith ffyrdd lleol, gan y bydd y rhan fwyaf o symudiadau cerbydau y tu allan i'r cyfnodau prysuraf. Bydd cynnydd bach iawn mewn cerbydau nwyddau mawr yn ôl ac ymlaen o'r safle.

I gael rhagor o wybodaeth am sut byddwn yn asesu ac yn lliniaru unrhyw effeithiau ar draffig a thrafnidiaeth, gweler pennod 11 o'r Datganiad Amgylcheddol.

Tir a phriddoedd

Nid yw'r safle'n destun unrhyw sensitifrwydd daearegol a bydd yr holl waith cloddio yn destun mesurau lliniaru arferion gorau. Ystyrir nad yw effeithiau'r datblygiad arfaethedig ar y ddaeareg waelodol yn sylweddol.

Nid oes disgwyl i'r datblygiad arfaethedig ei hun arwain at risgiau ychwanegol o ran halogi tir, gan y bydd y safle'n cael ei reoli yn unol â'r gofynion rheoleiddio presennol a bydd yn ddarostyngedig i amodau Trwydded Amgylcheddol a fydd yn cael ei chyhoeddi gan Cyfoeth Naturiol Cymru. O ganlyniad, aseswyd na fydd yr effeithiau halogi ar dir a phriddoedd yn arwyddocaol.

Lle bo'n ymarferol, bydd yr uwchbridd yn cael ei aildefnyddio ar y safle. Bydd y gwaith o symud, pentyrru ac aildefnyddio pridd yn cael ei wneud yn unol â chynllun rheoli pridd i sicrhau bod adnoddau'r pridd yn cael eu gwarchod.

I gael rhagor o wybodaeth am sut byddwn yn asesu ac yn lliniaru unrhyw effeithiau ar dir a phriddoedd, gweler pennod 12 o'r Datganiad Amgylcheddol.

Damweiniau mawr a thrychinebau

Mae astudiaeth Nodi Peryglon wedi cael ei pharatoi, sydd wedi nodi bod gan y canlynol y potensial i achosi damwain fawr neu drychineb:

- colli'r gallu i ynysu CO₂
- tân
- methiant strwythurol mawr
- digwyddiad llygredd mawr.

Mewn ymateb i ganfyddiadau'r astudiaeth hon, mae rhagor o gynlluniau a phrosesau diogelwch yn cael eu paratoi, a bydd y cyfleuster yn cael ei weithredu yn unol â hynny. Bydd y cynlluniau hyn yn mynd i'r afael â phob un o'r peryglon a nodir uchod.

Bydd y systemau rheoli iechyd, diogelwch a'r amgylchedd presennol yn cael eu diweddarau i gynnwys y cyfleuster cipio carbon ac i ddiogelu yn erbyn y peryglon posibl hyn. Bydd y systemau rheoli yn amlinellu'r dull o reoli diogelwch a'r amgylchedd yn ystod y cam gweithredu, gan gynnwys ymateb i ollyngiadau, ymateb mewn argyfwng a chynlluniau cau a gadael diogel.

I gael rhagor o wybodaeth am sut byddwn yn asesu ac yn diogelu yn erbyn unrhyw ddamweiniau mawr a thrychinebau posibl, gweler pennod 13 o'r Datganiad Amgylcheddol.

Asedau materol a gwastraff

Bydd gwastraff sy'n cael ei gynhyrchu ar y safle yn cael ei reoli mewn ffordd briodol a chynaliadwy. Mae Cynllun Rheoli Gwastraff Safle Amlinellol wedi cael ei baratoi ar gyfer y datblygiad arfaethedig sy'n anelu i leihau, aildefnyddio, ailgylchu ac adfer gwastraff a gynhyrchir yn ystod y camau adeiladu a gweithredu.

Mae'r Cynllun Rheoli Gwastraff Safle Amlinellol yn amlinellu egwyddorion allweddoli leihau faint o wastraff sy'n cael ei gynhyrchu yn ystod y camau dymchwel, paratoi'r safle, adeiladu a gweithredu. Mae'n cynnwys:

- aildefnyddio deunyddiau (pan fydd hynny'n ymarferol)
- gwahanu gwastraff er mwyn lleihau croeshalogi
- cyfrifo faint o wastraff adeiladu a gynhyrchir a gosod targedau lleihau/ ailgylchu
- datblygu cofrestrau, archwiliadau a rhaglenni monitro.

Bydd y gwastraff a gynhyrchir gan y datblygiad arfaethedig pan fydd yn weithredol yn cael ei

aildefnyddio ar y safle neu ei waredu drwy gontractwr gwastraff priodol i gyfleuster gwastraff addas. Bydd manau storio gwastraff yn cael eu lleoli'n briodol a'u dylunio i sicrhau bod unrhyw risgiau posibl i'r amgylchedd yn cael eu lleihau.

I gael rhagor o wybodaeth am sut byddwn yn rheoli asedau materol a gwastraff, gweler pennod 14 o'r Datganiad Amgylcheddol.

Effeithiau cronrus

Fel rhan o broses yr AEA, rydym wedi chwilio am ddatblygiadau arall yn yr ardal leol a allai arwain at effeithiau tebyg neu effeithiau sy'n gorgyffwrdd â'r datblygiad arfaethedig. Ni nodwyd unrhyw effeithiau cronrus sylweddol.

I gael rhagor o wybodaeth am sut byddwn yn asesu ac yn lliniaru unrhyw effeithiau cronrus, gweler pennod 15 o'r Datganiad Amgylcheddol.



Budd cymunedol

Rydym ni'n falch o'r rôl rydym ni'n ei chwarae o ran cyfrannu at y gymuned ac rydym ni wedi ymrwymo i gael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad y prosiect hwn.

Fel rhan o'n cynlluniau ar gyfer dyfodol safle Padeswood, byddwn yn:

- diogelu 222 o swyddi uniongyrchol ac anuniongyrchol
- creu 54 o swyddi llawn amser newydd medrus iawn yn Padeswood, a hyd at 350 o swyddi yn ystod cyfnod adeiladu'r cyfleuster cipio carbon
- dod â dros £600 miliwn o fuddsoddiad i'r prosiect a'r rhanbarth
- parhau i gefnogi cymunedau lleol a grwpiau cymorth elusennau ledled Sir y Fflint drwy roi deunyddiau a chyllid

- parhau â'n grŵp cyswllt cymunedol, sy'n cyfarfod yn rheolaidd i sicrhau cyfathrebu clir rhwng y gwaith sment a'r gymuned leol, i drafod materion cymunedol lleol ac i ddatblygu ein cefnogaeth gymunedol barhaus
- parhau i gefnogi mentrau cymunedol lleol, e.e. grwpiau gwirfoddoli, er mwyn cynyddu ymdeimlad o gymuned yn yr ardal leol.

Byddwn yn parhau i weithio gyda'n rhanddeiliaid a'r gymuned i ddeall sut gallwn ni fod o'r budd gorau i'r ardal leol. Mae ein cynlluniau ar gyfer budd cymunedol yn dal i gael eu datblygu ac, o ganlyniad, rydym yn annog adborth ar gyfleoedd budd cymunedol fel rhan o'r ymgynghoriad statudol hwn.



Disgyblion ysgolion uwchradd yn elwa ar addysg ysgol goedwig gan ddefnyddio coetir yng Nghanolfan Eco gweithdi Padeswood.

Ein hymgyngoriad

Y broses ymgynghori

Mae Padeswood CCS yn cael ei ystyried yn Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol (DAC). Mae'r weithdrefn gydsynio ar gyfer ceisiadau DAC yn ei gwneud yn ofynnol i ni wneud cais am ganiatâd cynllunio i Lywodraeth Cymru (a weinyddir gan Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru).

Bydd y cais yn cael ei archwilio gan PCAC, a fydd yn gwneud argymhellid ar y cais i Weinidogion Cymru. Mae Gweinidogion Cymru wedyn yn gwneud y penderfyniad terfynol ar y cais ar ran Llywodraeth Cymru.

Cyn cyflwyno'r cais cynllunio, mae'n rhaid i ni ymgynghori â phobl sy'n byw yng nghyffiniau'r prosiect, ymgynghoreion cymunedol ac arbenigol penodol, ac unigolion perthnasol arall.

Gallwch ddarganfod mwy o wybodaeth am y broses DAC yn www.llyw.cymru/datblygiadau-o-arwyddocad-cenedlaethol-dns-canllawiau.

Crynodeb ymgynghori anstatudol

Yn unol â'r canllawiau arferion gorau a ddarparwyd gan PCAC, yn gynnar yn 2023, fe wnaethom ymgysylltu'n gynnar â chymunedau i'n helpu i ganfod a goresgyn problemau posibl gyda'n cynigion wrth iddynt gael eu datblygu.

Fe wnaethom gynnal ein hymgyngoriad anstatudol cychwynnol rhwng dydd Mercher 25 Ionawr 2023 a dydd Mawrth 21 Chwefror 2023. Yn ystod y cyfnod hwn, fe wnaethom gynnal cyfanswm o chwe digwyddiad wyneb yn wyneb ac ar-lein, gyda chyfanswm cyfunol o 82 o bobl yn bresennol.

Cafodd adborth o'r ymgynghoriad anstatudol ei goladu a'i ddsbarthu i dîm y prosiect a, lle bo'n briodol, mae wedi cael ei ddefnyddio i helpu i lunio'r prosiect hwn.

Gofynnwyd i'r ymatebwyr roi eu barn ar nifer o effeithiau posibl, gan gynnwys ansawdd aer, yr hinsawdd, y dirwedd ac amwynderau gweledol, sŵn a dirgryndod, bioamrywiaeth, traffig a thrafnidiaeth a threftadaeth ddiwylliannol.

Mae'r adborth ysgrifenedig a llafar a gawsom o'r rownd hon o ymgynghori hefyd wedi cyfrannu at ein dull gweithredu ar gyfer yr ymgynghoriad statudol hwn, ac rydym wedi cymryd camau i sicrhau bod y cylch ymgysylltu hwn yn hygyrch, yn gynhwysol ac yn addysgiadol.

Trosolwg o'r ymgynghoriad statudol

Rydym wedi gwrandao ar yr adborth a gafwyd o'r ymgynghoriad anstatudol ac wedi'i ddefnyddio i lywio ein dyluniadau mwy datblygedig ar gyfer y datblygiad arfaethedig.

Mae'r dyluniadau hyn yn rhoi rhagor o fanylion am ein cynigion, gan gynnwys gwybodaeth am sut mae effeithiau posibl wedi cael eu hasesu a sut rydym ni'n bwriadu eu rheoli neu eu lliniaru.

Bydd yr ymgynghoriad statudol ffurfiol hwn yn cyflwyno ein cynigion manwl wedi'u diweddarau, effeithiau sylweddol posibl a'r mesurau lliniaru i'w defnyddio i osgoi, lleihau a/neu wrthbwyso unrhyw effeithiau posibl.

Mae hefyd yn rhoi cyfle terfynol i'r cyhoedd a rhanddeiliaid roi adborth cyn cyflwyno ein cais cynllunio DAC i PCAC.

Cyn cynnal yr ymgynghoriad statudol, buom yn ymgysylltu â swyddogion Cyngor Sir y Fflint i drafod dull ymgynghori'r prosiect. Roedd hyn yn galluogi swyddogion i roi adborth ar ein dull gweithredu, sydd bellach wedi cael ei roi ar waith yn ein cynlluniau ymgysylltu.

Nodau'r ymgynghoriad statudol yw:

- dangos sut mae ein cynigion wedi esblygu ers ein hymgyngoriad anstatudol, a sut mae adborth wedi dylanwadu ar y broses hon nodi'r cynigion
- cael mewnwelediad drwy wrando ar safbwyntiau cymunedau lleol a rhanddeiliaid eraill am y cynigion diweddaraf
- sicrhau bod effeithiau sylweddol posibl y datblygiad arfaethedig wedi cael eu hystyried wrth i ni gwblhau ein strategaethau lliniaru
- darparu sylfaen dystiolaeth gadarn ar gyfer y cais DAC, gan ein galluogi i ddangos sut mae adborth gan y gymuned a rhanddeiliaid wedi dylanwadu ar ein hystyriaethau lle bo hynny'n bosibl.

Bydd yr holl adborth a dderbynnir yn ystod y cyfnod ymgynghori yn cael ei brosesu mewn cronfa ddata ddiogel, ei ddarllen a'i ddadansoddi. Bydd sylwadau sy'n debyg yn thematig yn cael eu nodi a'u grwpio gyda'i gilydd yn 'faterion'. Bydd yr holl sylwadau fesul mater wedyn yn cael eu crynhoi fel 'datganiadau faterion' ac yn cael eu hystyried gan dîm prosiect Padeswood CCS. Bydd y tîm yn ystyried yr holl ddatganiadau am faterion ac yn derbyn awgrymiadau lle bo hynny'n bosibl ac yn briodol.

Bydd adroddiad ymgynghori'n cael ei gynhyrchu ar ôl i'r ymgynghoriad statudol ddod i ben a'i gyflwyno gyda'r cais cynllunio DAC i'w ystyried gan PCAC fel rhan o'r broses o benderfynu ar y cais. Bydd adroddiad yr ymgynghoriad yn disgrifio sut y cynhaliwyd yr ymgynghoriad, yr adborth a gafwyd a sut y mae wedi dylanwadu ar y datblygiad arfaethedig.



Ein digwyddiadau ymgynghori

Byddwn yn cynnal pedwar digwyddiad ymgynghori wyneb yn wyneb a dau ymgynghoriad ar-lein i unrhyw un sydd â diddordeb yn y datblygiad arfaethedig. Bydd y digwyddiadau ymgynghori yn gyfle i ddysgu sut mae ein cynigion wedi datblygu ers y rownd ymgynghori ddiwethaf a hefyd i roi adborth ffurfiol cyn cyflwyno'r cais DAC. Byddwn yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau i sicrhau bod yr ymgynghoriad yn gynhwysol ac yn hygyrch i bob cynulleidfa.

Bydd ein digwyddiadau wyneb yn wyneb a'n gweminarau ar-lein yn cael eu cynnal ar y dyddiadau a'r amseroedd canlynol:

Digwyddiad	Dyddiad	Amser
Eglwys Fethodistaidd Croes Bwcle, 3-7 Heol Padeswood, Bwcle, CH7 2JL	Dydd Sadwrn 13 Gorffennaf 2024	10:00 – 13:00
Eglwys Emmanuel, 42 Bryn Vounog, Penyffordd, Caer CH4 0EZ	Dydd Sadwrn 13 Gorffennaf 2024	14:00 – 17:00
Gweminar ar-lein 1	Dydd Mawrth 16 Gorffennaf 2024	12:30 – 13:30
Eglwys Fethodistaidd Croes Bwcle, 3-7 Heol Padeswood, Bwcle, CH7 2JL	Dydd Mercher 17 Gorffennaf 2024	13:00 – 20:00
Eglwys Emmanuel, 42 Bryn Vounog, Penyffordd, Caer CH4 0EZ	Dydd Iau 18 Gorffennaf 2024	10:00 – 17:00
Gweminar ar-lein 2	Dydd Iau 25 Gorffennaf 2024	18:00 – 19:00



Ewch i padeswoodccs.co.uk neu sganiwch y cod QR i gofrestru ar gyfer ein gweminarau.

Ble i gael mwy o wybodaeth

Mannau gwybodaeth

Er mwyn sicrhau bod y prosiect hwn mor hygyrch â phosibl, byddwn yn cadw gwybodaeth a deunyddiau'r prosiect mewn lleoliadau sy'n hygyrch i'r cyhoedd ac sy'n denu llawer o ymwelwyr.

Bydd ein deunyddiau ar gael yn y lleoliadau canlynol yn ystod y cyfnod ymgynghori:

- Llyfrgell Bwcle, Y Ganolfan Siopa, Ffordd Brunswick, Bwcle, CH7 2EF
- The Rise, Canolfan Gymunedol Bistre, Ffordd Nant Mawr, Bwcle, CH7 2PX
- SPAR Penyffordd, 48 Ffordd Hawarden, Penyffordd, Caer, CH4 0JE

Llywio ein deunyddiau ymgynghori

Dogfen	Disgrifiad
Llyfryn yr Ymgynghoriad	Yn darparu gwybodaeth am y prosiect, y broses gynllunio a'r hyn rydym yn ymgynghori yn ei gyloch.
Ffurflen Adborth	Ffurflen ar ffurf holiadur i gael eich adborth ar ein cynigion.
Drafft Datganiad Amgylcheddol	Disgrifiad manwl o'r prosiect, yr effeithiau sylweddol tebygol y gallai'r prosiect eu cael ar yr amgylchedd a'r mesurau lliniaru a gynigir i osgoi, lleihau a / neu wrthbwysu'r effeithiau posibl.
Crynodeb Annhechnegol y Datganiad Amgylcheddol	Gellir hefyd lawrlwytho Crynodeb Annhechnegol o'r Datganiad A mgylcheddol o wefan y prosiect a bydd ar gael ar ffurf wedi'i hargraffu ar gais.

Mae'r holl ddeunyddiau wedi cael eu dylunio mewn fformat clir a hygyrch i sicrhau nad oes unrhyw rwystrau rhag deall y wybodaeth nac ymateb. Bydd llyfryn yr ymgynghoriad a'r ffurflen adborth ar gael yn Gymraeg mewn digwyddiadau wyneb yn wyneb, yn ein manau gwybodaeth ac ar wefan yr ymgynghoriad.

Deunyddiau ymgynghori

Bydd yr holl ddeunyddiau ymgynghori, ar wahân i'r drafft Datganiad Amgylcheddol, ar gael yn y manau gwybodaeth. Bydd copi caled o'r drafft Datganiad Amgylcheddol ar gael yn ein digwyddiadau wyneb yn wyneb, yn ogystal â'r fersiwn ar-lein sydd ar gael ar wefan y prosiect.

Sianeli cyswllt y prosiect


Yn ogystal â'r dulliau a ddisgrifir uchod, gallwch hefyd gael gwybod am yr ymgynghoriad, gofyn cwestiynau a gwneud cais am ddogfennau drwy rif rhadffôn y prosiect a'r cyfeiriad e-bost. Byddwch hefyd yn gallu cyflwyno adborth drwy gyfeiriad e-bost a chyfeiriad rhadbost y prosiect.

Gellir cyfieithu'r holl ddeunyddiau ymgynghori sy'n weddill neu eu darparu mewn fformatau eraill (e.e. braille a thestun mawr) ar gais.

Sganiwch y cod QR am fwy o wybodaeth:



Y camau nesaf



Yn dilyn y rownd ymgynghori ffurfiol hon, rydym yn disgwyl cyflwyno ein cais i PCAC yn ystod haf 2024, ynghyd â Datganiad Amgylcheddol. Yn amodol ar ganiatâd cynllunio, rydym yn bwriadu dechrau adeiladu'r datblygiad arfaethedig yn 2025, a dechrau gweithredu'n fasnachol erbyn 2029.

Mae amserlen ddisgwyliedig ein prosiect wedi'i nodi isod. Sylwch y gallai hyn newid.



Ymgynghoriad statudol –
Gorffennaf i Awst 2024



Cais Cynllunio DAC –
haf 2024 i wanwyn 2025



Peirianeg, Caffael ac Adeiladu –
hydref 2025 a gaeaf 2028

Sut i ddarparu adborth

Rydym eisiau clywed gennych chi. Mae eich adborth yn bwysig a gall helpu i lunio ein cynigion.

Mae ein hymgynghoriad ar agor o ddydd Mawrth 02 Gorffennaf 2024 i 11:59pm Dydd Llun 12 Awst 2024

Mae ein holl ddeunyddiau ategol ar gael ar ein gwefan yn **padeswoodccs.co.uk** a gallwch hefyd ddarparu eich adborth ar-lein trwy ein ffurflen adborth.

Os hoffech gael copi caled o'r ffurflen adborth neu unrhyw un o'n deunyddiau mewn fformat gwahanol, rhowch wybod i ni gan ddefnyddio'r manylion isod:

Ebost: **padeswoodccs@uk.heidelbergmaterials.com**

Rhif ffôn: **0800 046 9642**

Post: **FREEPOST PADESWOOD CCS**



Ebost:

padeswoodccs@uk.heidelbergmaterials.com

Rhif ffôn:

0800 046 9642

Post:

FREEPOST PADESWOOD CCS



Sganiwch y cod QR i gael eich
cyfeirio at ein ffurflen adborth

This document is also available
in English on our website here

Heidelberg Materials UK
Second Floor, Arena Court
Crown Lane
Maidenhead
Berkshire SL6 8QZ

padeswoodccs.co.uk